Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn yr ymweliad monitro â Chonsortiwm Canolbarth y De
## Tŷ Dysgu
## Cefn Coed
## Nantgarw
## Trefforest
## CF15 7QQ

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyflwyniad

Yn Chwefror 2016, arolygodd Estyn y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Canolbarth y De. Ym Medi 2017, ymwelodd Estyn â Chonsortiwm Canolbarth y De i adolygu'r cynnydd a wnaed gan y consortiwm mewn perthynas â'r argymhellion a nodwyd yn yr arolygiad.

Wrth arfarnu cynnydd ar gyfer pob argymhelliad, fe wnaethom ystyried y canlynol:

- A yw'r consortiwm wedi deall y rhesymau y tu ôl i'r argymhelliad?
- A yw'r consortiwm wedi cymryd camau rhesymol i fynd i'r afael â'r argymhelliad yn llwyddiannus, gan ystyried ei fan cychwyn, yr amser rhwng arolygiad ac ymweliad dilynol, yn ogystal â chymhlethdod y materion i fynd i'r afael â nhw?
- A yw'r consortiwm wedi cael cymorth priodol i fynd i'r afael â'r argymhellion gan ei awdurdodau lleol partner?
- A yw'r consortiwm wedi sicrhau bod newidiadau sy'n deillio o'i gynnydd o ran mynd i'r afael â phob argymhelliad wedi cael eu hymgorffori ddigon yn ei arferion gweithio i sicrhau gwelliant cynaledig?

Wrth lunio barn am y cynnydd yn erbyn yr argymhellion, bu'r tîm monitro yn ystyried y tueddiadau mewn perfformiad dros y pum mlynedd ddiwethaf fel cyd-destun ar gyfer arfarnu effaith ei waith mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na ellir priodoli deilliannau yn gyfan gwbl i waith y consortiwm rhanbarthol am fod gan bartneriaid eraill yn y system rôl bwysig hefyd.

Bu'r tîm monitro yn ystyried ystod o dystiolaeth, gan gynnwys cynllunio busnes y consortiwm, arfarniadau, adroddiadau ymgynghorwyr her a safbwyntiau penaethiaid.

Nid yw Estyn yn bwriadu cynnal unrhyw ymweliadau dilynol pellach â Chonsortiwm Canolbarth y De. Bydd unrhyw feysydd i'w gwella sy'n weddill yn cael eu monitro'n anffurfiol gan arolygydd cyswllt rhanbarthol Estyn ac arolygwyr cyswllt perthnasol yr awdurdod lleol, a'u hystyried yn ystod arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn y dyfodol.

## Cynnydd ers yr arolygiad

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod gwasanaethau gwella ysgolion yn mynd i'r afael ag amrywioldeb perfformiad ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad, mae'r consortiwm wedi gweithio'n dda i helpu lleihau'r amrywioldeb mewn perfformiad ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol yn y rhanbarth.

Mae uwch arweinwyr wedi ailffurfio'r gwasanaeth ac wedi cynorthwyo ymgynghorwyr her yn systematig i ddatblygu eu gwaith. Caiff ymgynghorwyr her ddeialog agored a gonest gydag ysgolion ac maent yn defnyddio dull mwy ffocysedig o gefnogi anghenion unigol ysgolion. Mae'r broses gategoreiddio yn parhau i sicrhau bod yr ysgolion sydd fwyaf mewn angen yn cael eu cynorthwyo'n briodol. Mae'r camau gweithredu hyn, yn rhannol, wedi cyfrannu at berfformiad gwell ar draws y consortiwm.

Mae'r mwyafrif o ysgolion uwchradd wedi parhau i berfformio'n dda ar gyfer mesur lefel 2, sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, ac yn yr holl fesurau eraill yng nghyfnod allweddol 4. Mae gwelliant yn parhau yn y deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mhob un o'r dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4, ac mae'r bwlch yn y perfformiad rhwng y rheiny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn gymwys amdanynt wedi lleihau bron ym mhob mesur hefyd.

At ei gilydd, mae'r amrywioldeb mewn perfformiad wedi gostwng ym mwyafrif y mesurau yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd sy'n perfformio waelaf yn y rhanbarth wedi gwella. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ysgolion uwchradd yn parhau i gyflawni deilliannau gwael ar gyfer eu disgyblion.

At ei gilydd, mae deilliannau arolygu ar gyfer ysgolion wedi gwella ers arolygiad y consortiwm, ac mae angen gweithgarwch dilynol ar lai o ysgolion. Barnwyd bod safonau'n dda neu'n well yn y mwyafrif o ysgolion cynradd, ac ychydig dros hanner yr ysgolion uwchradd. Canfuwyd bod gan ddwy ysgol uwchradd a dwy ysgol arbennig ddeilliannau rhagorol ar gyfer disgyblion, a rhagolygon gwella rhagorol. Fodd bynnag, gosodwyd tua un o bob pump o ysgolion cynradd mewn categori gweithgarwch dilynol, a chanfuwyd bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig ar ychydig iawn ohonynt. Gosodwyd lleiafrif o ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yn y categori gweithgarwch dilynol.

**Argymhelliad 2: Gwella cywirdeb arfarniadau ysgolion gan ymgynghorwyr her er mwyn sicrhau ffocws gwell ar wella addysgu ac arweinyddiaeth**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r consortiwm wedi cymryd sawl cam i ddatblygu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan ymgynghorwyr her i helpu ysgolion i wella. Maent wedi ymgymryd â

phrosesau mwy trylwyr ar gyfer recriwtio ymgynghorwyr her ac maent yn rhoi dulliau trylwyr o sicrhau ansawdd ar waith ac yn dwyn ymgynghorwyr her i gyfrif am eu perfformiad.

Mae cyfleoedd datblygiad proffesiynol perthnasol a gweithdrefnau rheoli cryfach, gan gynnwys monitro adroddiadau'n ofalus, wedi cynorthwyo ymgynghorwyr her i wella'u gwaith. Mae'r consortiwm yn darparu arweiniad a meini prawf clir a deunyddiau enghreifftiol defnyddiol ar gyfer ei ymgynghorwyr her, sydd wedi helpu i wella ansawdd adroddiadau ysgrifenedig. Mae hyfforddiant i ddatblygu medrau ymgynghorwyr her o ran arfarnu gwersi wedi cyfrannu'n sylweddol at allu ymgynghorwyr her i lunio barnau cywir am addysgu. Mae arweinwyr ysgol yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod ac arfarnu ansawdd yr addysgu gydag ymgynghorwyr her yn eu hysgol yn fawr. O ganlyniad, mae'r adroddiadau sy'n cael eu hysgrifennu gan ymgynghorwyr her yn darparu gwerthusiad mwy cywir ac arfarnol o waith yr ysgolion.

Mae'r consortiwm yn annog ymgynghorwyr her i fyfyrio ar ansawdd eu harfarniadau, yn ogystal â darparu hyfforddiant un-i-un i'w helpu i wella'u harfer. Mae hyn yn helpu i wella agweddau penodol ar waith ymgynghorwyr her a nodwyd gan uwch arweinwyr trwy ddadansoddi a sicrhau ansawdd adroddiadau.

Mae arfarniadau bron pob un o'r ymgynghorwyr her bellach yn cynnwys barnau clir am ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth. Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau'n rhoi manylion defnyddiol a gafwyd o arsylwadau gwersi, ac yn yr enghreifftiau gorau, mae ymgynghorwyr her yn gwneud cysylltiadau perthnasol rhwng arweinyddiaeth, addysgu a safonau. Mae pob adroddiad yn darparu sylwadau ar ddata. Fodd bynnag, nid yw ymgynghorwyr her yn cyfeirio'n gyson at gynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mewn ychydig iawn o adroddiadau ysgolion uwchradd, nid yw'r dadansoddiad o berfformiad disgyblion yn ddigon clir. Yn y dangosyddion hyn, nid yw eu dealltwriaeth o addysgu ac arweinyddiaeth mewn ysgolion mor gynhwysfawr ag y mae angen iddo fod.

Mae cywirdeb a defnyddioldeb yr adroddiadau a ysgrifennir gan ymgynghorwyr her cyn arolygiad ysgol wedi gwella'n sylweddol. Y llynedd, ychydig iawn o adroddiadau cyn-arolygiad yn unig oedd â gwendidau yn eu harfarniadau.

Yn ddiweddar, mae'r consortiwm wedi ad-drefnu'r defnydd o ymgynghorwyr her ac mae wedi datblygu dulliau newydd o weithio mewn clystyrau. Mae'r trefniadau newydd yn golygu bod ysgolion ac ymgynghorwyr her yn cael eu paru'n well i fodloni anghenion cyd-destun yr ysgol. O ganlyniad, gall y consortiwm hwyluso cyfleoedd rhwydweithio yn haws a hyrwyddo rhannu arfer dda rhwng ysgolion.

**Argymhelliad 3: Cryfhau'r gweithdrefnau ar gyfer monitro ac arfarnu effaith gwaith gwella ysgolion**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r consortiwm wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r personél ar bob lefel yn y sefydliad, gan gynnwys penodi rheolwr gyfarwyddwr newydd yn Ebrill 2017. Mae hyn wedi arwain at ailalinio cyfrifoldebau. Nid yw un

swydd uwch arweinyddiaeth wedi'i llenwi o hyd.

Mae'r consortiwm wedi cynnal arfarniad systematig o lawer o elfennau o'i waith hefyd, gan gynnwys pedair agwedd ei Her Canolbarth De Cymru. Nododd yr arfarniad ymgysylltiad cynyddol ysgolion ag agweddau ar Her Canolbarth De Cymru ac ystod y cyfleoedd datblygiadol y mae staff ysgolion yn elwa arnynt. Er enghraifft, mae ysgolion yn parhau i ymgysylltu â grwpiau gwella ysgolion ac yn elwa ar weithio gydag ysgolion eraill ar flaenoriaethau sy'n berthnasol iddynt. Amlygodd yr arfarniad hefyd fod adrodd a choladu gwybodaeth allweddol yn systematig, fel newidiadau i arfer addysgu a'r effaith ar ddeilliannau dysgwyr, yn rhy amrywiol.

Mae'r consortiwm wedi nodi bod angen gwella'i brosesau sicrhau ansawdd i wneud arfarniadau o'i waith yn fwy hygyrch ac ystyrlon i ystod o bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol ac ysgolion.

Mae'r consortiwm wedi cymryd camau priodol i sicrhau bod pob un o'i staff yn meddu ar ddealltwriaeth well o'i waith ac i ymgysylltu ag ysgolion yn fwy effeithiol i gefnogi dysgu proffesiynol pellach mewn ysgolion.

Mae'r rhesymeg dros ddatblygu arweinyddiaeth ysgolion yn glir, ac mae'r consortiwm yn cydnabod ac yn deall pwysigrwydd arweinyddiaeth o ansawdd uchel o ran gwella perfformiad ysgolion. Mae datblygu arweinyddiaeth y consortiwm ar gyfer penaethiaid yn gwella gallu penaethiaid i arwain eu hysgolion yn effeithiol, ac mae bron pob un ohonynt yn cymryd rhan yn weithredol mewn grwpiau gwella ysgolion. Mae hyn, yn rhannol, wedi arwain at gael mwy o ysgolion i wella'u categoreiddio.

Yn ddiweddar, mae'r consortiwm wedi diwygio'r adroddiadau cryno ar berfformiad y mae'n eu darparu ar gyfer pob awdurdod lleol. Erbyn hyn, maent yn cynnwys ffocws llawer craffach ar ysgolion sy'n destun pryder. Mae'r adroddiadau defnyddiol hyn yn proffilio'r cynnydd y mae ysgolion yn ei wneud mewn perthynas â deilliannau disgyblion, addysgu ac arweinyddiaeth, gan gynnwys cynllunio ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o adroddiadau yn ddigon arfarnol, ac mae gormod o amrywiad yn ansawdd y wybodaeth a ddarperir. Mae cyfarwyddwyr addysg yn yr awdurdodau lleol cyfansoddol yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a ddarperir gan y consortiwm.

Er mwyn gwella'i ddealltwriaeth o brofiadau disgyblion a staff o fywyd ysgol, mae'r consortiwm wedi comisiynu astudiaeth hydredol ar agweddau disgyblion, yn seiliedig ar ganlyniad arolwg blynyddol. Mae'r consortiwm yn cynnal arolwg o staff ysgolion hefyd i gofnodi eu safbwyntiau ar arweinyddiaeth ac ymgysylltiad ysgolion â dysgu proffesiynol ac effaith hyn ar arfer. Mae'r arolygon hyn yn darparu adborth gwerthfawr y mae'r consortiwm yn dechrau ei ystyried yn ei waith yn gwella ysgolion.

At ei gilydd, mae'r consortiwm wedi gwella'r modd y mae'n monitro ac yn arfarnu ei waith, er bod rhai agweddau ar ddull y consortiwm mewn cyfnod datblygiadol o hyd.

**Argymhelliad 4: Arfarnu cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu'r consortiwm rhanbarthol yn fwy effeithiol**

Cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r consortiwm wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhelliad hwn, ac mae wedi cymryd camau gweithredu amserol i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn yr arolygiad.

Mae'r consortiwm wedi newid ei ddull o gynllunio gweithredol ers yr arolygiad. Mae'r cynllun gweithredol presennol yn fwy ffocysedig na'r cynlluniau amrywiol blaenorol, ac mae'n cyd-fynd yn well â'r cynllun strategol tair blynedd. Mae'r cynllun wedi'i drefnu'n ddefnyddiol yn flaenoriaethau allweddol sy'n cael eu cefnogi gan gynlluniau gweithredu penodol. Fodd bynnag, nid yw'r consortiwm yn diffinio'r amcanion yn ei gynlluniau gweithredu yn ddigon da, na'r meini prawf llwyddiant a'r cerrig milltir tuag at y rhain.

Caiff goruchwylio cyflwyno ac effaith pob cynllun gweithredu ei harwain gan 'dîm cymell', sy'n cynnwys trawstoriad o bersonél oddi mewn i'r consortiwm, gan gynnwys staff addysg arbenigol a staff cymorth. Mae hyn wedi helpu i ehangu perchnogaeth o waith a blaenoriaethau craidd y consortiwm ar draws y sefydliad cyfan.

Mae aelodau'r tîm cymell yn dwyn y swyddog cyfrifol i gyfrif am y cynnydd sy'n deillio o'r cynllun gweithredu. Yn ychwanegol, mae uwch arweinwyr o fewn y consortiwm, gan gynnwys y rheolwr gyfarwyddwr, yn adolygu cynnydd yn rheolaidd. Mae'r craffu gwell hwn wedi galluogi'r consortiwm i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o waith y sefydliad a'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn blaenoriaethau allweddol.

Mae'r ffordd y mae'r timau'n ymgymryd â'u gwaith, a'r modd y maent yn arfarnu ac yn adrodd, yn datblygu o hyd. Mae hyn yn golygu, er bod timau cymell eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar gynllunio, monitro ac arfarnu, mae eu gwaith ac ansawdd eu harfarnu a'u hadroddiadau'n anghyson. Mae'r consortiwm wedi rhoi hyfforddiant ar waith i helpu unigolion a thimau i wella'r ffordd y maent yn gweithio. Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y cymorth hwn.

Mae'r consortiwm wedi nodi bod angen gwella'r ffordd y mae'n defnyddio tystiolaeth i ddadansoddi a chefnogi'r casgliadau y mae'n eu llunio am ansawdd ei waith, a'i gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion yn ei gynllun gweithredu.

Ar hyn o bryd, nid yw sylwadau am gynnydd a wneir mewn adroddiadau adolygu cynlluniau gweithredu yn ddigon manwl gywir i ddangos pa mor dda y mae gwaith y consortiwm yn symud ymlaen tuag at ei amcanion, ac nid yw dadansoddi yn archwilio'r dystiolaeth yn ddigon manwl i gadarnhau p'un a yw'r camau gweithredu a gymerwyd yn cael yr effaith angenrheidiol.

Mae'r consortiwm wedi cymryd camau i wella'i asesiad o werth am arian ei waith, sy'n cael ei arwain gan fwrdd ymchwil ac arfarnu. Mewn partneriaeth â sefydliad addysg uwch lleol, mae'r consortiwm wedi dechrau arbrofi â model ar gyfer mesur gwerth am arian gan ddefnyddio saith mesur allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys mwy na dadansoddiad syml o fewnbwn adnoddau sydd ynghlwm â deilliannau

addysgol; yn hytrach, mae'n edrych yn fanylach ar saith elfen allweddol i helpu asesu gwerth am arian. Mae'r rhain yn cynnwys 'darbodaeth, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, cynaliadwyedd, anfantais gydweithredol, gwerth ychwanegol ac ansawdd'. Mae gan y gwaith hwn y potensial i gynyddu gallu'r consortiwm i asesu effaith ei gynlluniau, ond megis dechrau y mae hyn.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn, a gwella arno, dylai'r consortiwm barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny ble mae angen gwneud rhagor o gynnydd.